

Etholiad Cynulliad
Cenedlaethol Cymru

Canllawiau i
ymgeiswyr ac
asiantiaid

Dogfen drosolwg

Mae'r ddogfen hon yn gymwys i etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Gellir gweld ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer etholiadau eraill yn y DU o'n gwefan yn:

<http://www.electoralcommission.org.uk/cymru/guidance/resources-for-those-we-regulate/candidates-and-agents>.

Cynnwys

Diben ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid	2
Sut i ddefnyddio ein canllawiau.....	2
Y system etholiadol.....	4
Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sut gallwch gysylltu â hwy?	5
Swyddogion Canlyniadau.....	5
Y Swyddog Cofrestru Etholiadol.....	6
Y Comisiwn Etholiadol.....	6
Cysylltu â ni	8

2

Diben ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid

1.1 Nod ein canllawiau yw rhoi cyngor ymarferol i ymgeiswyr a phleidiau sydd am sefyll yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016, yn ogystal ag unrhyw un sydd am weithredu fel asiant.

1.2 Mae'n ymdrin â'r hyn sydd angen i chi ei wneud i sefyll fel ymgeisydd etholaethol neu yn yr etholiad rhanbarthol fel ymgeisydd unigol neu ymgeisydd rhestr plaid, a beth sydd angen i bleidiau ei wneud i gyflwyno rhestrau plaid. Mae hefyd yn ymdrin â chyfnodau'r ymgyrch a'r etholiad, datgan y canlyniadau a'r gwariant ar yr etholiad. Mae'n cynnwys ffeithiau perthnasol yn ogystal â chyfeiriadau at ffynonellau gwybodaeth eraill. Gall y broses o sefyll etholiad fod yn gymhleth, ond gobeithiwn y bydd y canllaw hwn yn ei gwneud mor syml â phosibl.

Datblygwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y ddeddfwriaeth fel y mae ar hyn o bryd ac mae'n gwneud rhai rhagdybiaethau ynghylch beth fydd deddfwriaeth bellach yn ei ddarparu, ac felly gall newid. Byddwn yn diweddarau ac yn ailgyhoeddi'r canllawiau fel y bo'n briodol pan fydd y ddeddfwriaeth yn glir.

Sut i ddefnyddio ein canllawiau

1.3 Mae ein canllawiau yn cynnwys chwe rhan, sy'n nodi'r camau gwahanol y bydd angen i ymgeiswyr ac asiantiaid fynd drwyddynt os byddant yn sefyll yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mai 2016. Mae [canllawiau ar wahân i bleidiau gwleidyddol](#) ar wariant ar yr ymgyrchu, gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno rhestrau rhanbarthol o ymgeiswyr, hefyd ar gael.

1.4 Mae pob rhan yn cynnwys nifer o ffurflenni ac adnoddau, y gellir cael gafael arnynt yn uniongyrchol drwy ddolenni yn y rhannau unigol. Fel arall, bydd y canllawiau, ffurflenni ac adnoddau perthnasol ar gael ar ein [tudalen gwe benodedig i ymgeiswyr ac asiantiaid](#) yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.5 Mae ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid ar gyfer etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys y rhannau canlynol:

- [Rhan 1 - A allwch sefyll etholiad?](#)
- [Rhan 2a – Sefyll yr etholiad etholaethol](#)
- [Rhan 2b – Sefyll yr etholiad rhanbarthol](#)
- [Rhan 3 – Gwariant a rhoddion](#)
- [Rhan 4 – Yr ymgyrch](#)
- [Rhan 5 – Eich hawl i fynychu digwyddiadau etholiadol allweddol](#)
- [Rhan 6 - Ar ôl datgan y canlyniadau](#)

1.6 Cyn dechrau'r broses o sefyll etholiad bydd angen i ddarpar ymgeiswyr fod yn hyderus eu bod yn bodloni'r holl ofynion. Felly dylech ddarllen [Rhan 1](#) o'n canllawiau yn gyntaf, sy'n cwmpasu'r cymwysterau a'r anghymwysiaidau.

1.7 Pan fyddwch yn fodlon y gallwch sefyll, dylech ddarllen [Rhan 2a](#) o'n canllawiau (os ydych yn sefyll fel ymgeisydd yn yr etholiad etholaethol) neu [Rhan 2b](#) o'n canllawiau (os ydych yn sefyll yn yr etholiad rhanbarthol naill ai fel ymgeisydd rhanbarthol unigol neu ymgeisydd rhestr plaid, neu os mai chi yw Swyddog Enwebu plaid wleidyddol sy'n dymuno cyflwyno rhestr o ymgeiswyr i sefyll ar ran y plaid). Mae Rhannau 2a a 2b yn delio â'r broses enwebu ac yn eich tywys drwy ba ffurflenni y mae angen i chi neu eich plaid eu cyflwyno ac erbyn pryd.

1.8 Rhaid i ymgeiswyr ac asiantiaid yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, boed yn ymgeiswyr unigol neu'n ymgeiswyr rhestr plaid, ddilyn rheolau ynghylch faint y gallant ei wario, gan bwy y gallant dderbyn rhoddion a beth y mae'n rhaid iddynt ei gofnodi ar ôl yr etholiad. Gallai methu â dilyn y rheolau olygu eich bod yn cyflawni trosedd ac yn colli eich sedd, os cewch eich ethol. Mae [Rhan 3](#) o'n canllawiau yn esbonio'r rheolau ar gyfer ymgeiswyr etholaethol ac ymgeiswyr rhanbarthol unigol. Rydym hefyd wedi llunio [canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol ar wariant ymgyrchu](#), gan gynnwys y rhai sy'n cyflwyno rhestrau rhanbarthol o ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad.

1.9 Mae [Rhan 4](#) yn ymdrin â'r rheolau ar gyhoeddi ac arddangos deunydd darllen yr ymgyrch a beth sydd angen i chi ei gofio wrth ymgyrchu.

4

1.10 Mae gan ymgeiswyr ac asiantiaid hawl hefyd i fynychu digwyddiadau etholaethol allweddol, fel y bleidlais, y cyfrif a choladu'r canlyniadau rhanbarthol. Gall eraill gael eu penodi i fynychu'r digwyddiadau etholiadol hyn. Ceir manylion am eich hawliau a'r hyn y gallwch ei ddisgwyl yn y digwyddiadau hyn yn [Rhan 5](#).

1.11 Yn olaf, mae nifer o bethau y bydd angen i ymgeiswyr ac asiantiaid eu gwneud ar ôl i'r canlyniadau gael eu datgan, gan gynnwys cyflwyno eu ffurflenni gwario. Ymdrinnir â hyn yn [Rhan 6](#).

1.12 Er mwyn cadw'r canllawiau mor berthnasol â phosibl i'r darllenydd, rydym wedi rhannu'r rhan fwyaf o rannau'r canllawiau yn adran 'Gwybodaeth hanfodol', y dylai pob ymgeisydd, asiant a phlaid wleidyddol ei darllen gan ei bod yn cynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i bawb, ac adran 'Gwybodaeth atodol', a fydd ond yn berthnasol i rai. Cewch eich cyfeirio at yr adran 'Gwybodaeth atodol' ar adegau perthnasol yn yr adran 'Gwybodaeth hanfodol'.

Y system etholiadol

1.13 Caiff aelodau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu hethol o dan y system etholiadol aelodau ychwanegol. O dan y system hon, rhoddir dau bapur pleidleisio i bleidleiswyr: un ar gyfer yr etholiad etholaethol ac un ar gyfer yr etholiad rhanbarthol. Ar y papur pleidleisio etholaethol, gofynnir i bleidleiswyr roi 'X' wrth ymyl yr ymgeisydd o'u dewis. Ar y papur pleidleisio rhanbarthol, gofynnir i bleidleiswyr roi 'X' wrth ymyl y blaid neu'r ymgeisydd unigol o'u dewis.

1.14 Mae 60 o Aelodau Cynulliad (ACau) yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru - 40 o ACau etholaethol ac 20 o ACau rhanbarthol, gyda 4 AC rhanbarthol yn cael eu hethol i gynrychioli pob un o'r 5 rhanbarth etholiadol.

Pwy sy'n gwneud beth mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a sut gallwch gysylltu â hwy?

Swyddogion Canlyniadau

Swyddogion Canlyniadau Etholaethol

1.15 Mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Swyddog Canlyniadau Etholaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu'r etholiad etholaethol, gan gynnwys enwebu ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad etholaethol, ac elfennau o'r etholiad rhanbarthol y mae eu hardal etholaethol yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys cynnal y bleidlais a'r cyfrif.

1.16 Y Swyddog Canlyniadau Etholaethol yw'r Swyddog Canlyniadau sy'n gyfrifol am etholiadau llywodraeth leol yn yr ardal honno ac fel arfer mae'n uwch swyddog yn yr awdurdod lleol ac yn annibynnol ar yr awdurdod o ran ei swyddogaethau etholiadol.

1.17 Os bydd etholaeth yn cwmpasu mwy nag un ardal awdurdod lleol, penodir y Swyddog Canlyniadau Etholaethol gan Weinidogion Cymru.

Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol

1.18 Mewn etholiad ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol sy'n gyfrifol am ddelio ag enwebiadau ar gyfer yr etholiad rhanbarthol ac am ddyrannu seddau rhanbarthol.

1.19 Penodir y Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth etholiadol gan Weinidogion Cymru.

Cysylltu â'r Swyddog Canlyniadau Etholaethol a Rhanbarthol

1.20 Mae enwau a manylion cyswllt Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol ar gael ar [ein gwefan](#).

6

1.21 Bydd Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Rhanbarthol yn cynnig briffiadau cyn yr etholiad ac rydym yn eich annog yn gryf i'w mynychu, hyd yn oed os ydych wedi bod yn asiant neu wedi sefyll etholiad o'r blaen.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol

1.22 Y Swyddog Cofrestru Etholiadol sy'n gyfrifol am gynnal y gofrestr o etholwyr a rhestrau pleidleiswyr absennol ar gyfer eu hardal awdurdod lleol. Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw un o'r uwch swyddogion yn yr awdurdod lleol fel arfer a gall hefyd gyflawni rôl y Swyddog Canlyniadau. Ceir manylion cyswllt pob Swyddog Cofrestru Etholiadol yn www.fymheidlaisi.co.uk.

Y Comisiwn Etholiadol

1.23 Rydym yn gorff statudol annibynnol a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2000 gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Cawn ein harwain ar hyn o bryd gan naw Comisiynydd, gan gynnwys Cadeirydd. Rydym yn uniongyrchol atebol i Senedd y DU drwy bwyllgor a gadeirir gan Lefarydd Tŷ'r Cyffredin.

1.24 Rydym yn gyfrifol am gofrestru pleidiau gwleidyddol ac ymgyrchwyr di-blaid, monitro a chyhoeddi rhoddion sylweddol i bleidiau gwleidyddol cofrestredig a rheoleiddio gwariant ymgyrchwyr plaid a di-blaid mewn etholiadau penodol. Rydym yn cyhoeddi canllawiau i bleidiau gwleidyddol, ymgeiswyr a'u hasiantiaid, ymgyrchwyr di-blaid a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig ag etholiadau. Mae gennym rôl i'w chwarae hefyd yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith pleidleiswyr. Mae'n ofynnol i ni adrodd ar weinyddiaeth rhai digwyddiadau etholiadol penodol, gan gynnwys etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, arolygu materion etholiadol yn rheolaidd ac, os gofynnir am hynny, adolygu ac adrodd ar unrhyw fater etholiadol. Rydym hefyd yn achredu arsylwyr i fod yn bresennol yn ystod gweithrediadau etholiadau.

1.25 Nid ydym yn rhedeg etholiadau ond ni sy'n gyfrifol am roi cyngor a chymorth ar faterion etholiadol i bawb sy'n gysylltiedig ag etholiadau, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau Etholaethol, Swyddogion Canlyniadau Rhanbarthol, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr.

1.26 Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau. Mae ein manylion cyswllt ar y dudalen nesaf.

Cysylltu â ni

1.27 Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio un o'r dulliau isod:

E-bost: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Ffôn: 029 2034 6800